Cyllid & Tollau EM

# Cyfrif Treth Etifeddiant

IHT400

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon
- os bu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 18 Mawrth 1986, ac
- os oes Treth Etifeddiant i'w thalu
- os nad oes Treth Etifeddiant i'w thalu, ond nid yw'r ystâd yn gymwys fel ystâd eithriedig.

Mae tudalen 1 o'r IHT400 Nodiadau, yn rhoi manylion ynglŷn ag ystadau eithriedig.

**Dyddiad cau**
Rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen hon i ni o fewn 12 mis o ddyddiad y farwolaeth. Codir llog ar ôl chwe mis.

## Cyfrif y Dreth Etifeddiant

Mae'r cyfrif yn cynnwys y ffurflen hon ynghyd ag Atodlenni ar wahân. Bydd yn rhaid i chi lenwi rhai o'r Atodlenni.

**Er mwy'n dechrau ar y gwaith**
- Casglwch ynghyd bapurau'r ymadawedig a'r wybodaeth sydd gennych ynglŷn ag ystâd yr ymadawedig. Gwnewch restr o asedion, rhwymedigaethau, buddsoddiadau a buddiannau ariannol eraill yr ymadawedig ac unrhyw roddion a roddwyd.
- Llenwch flychau 1 i 28 ac yna gweithiwch drwy flychau 29 i 48 y ffurflen hon i gael gweld pa Atodlenni sydd eu hangen arnoch. Os nad yw pob Atodlen gennych gallwch:
  – eu lawr lwytho o **www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/** neu
  – ffoniwch y Llinell Gymorth i ofyn amdanynt.
- llenwch yr atodlenni cyn mynd ymlaen i gwblhau'r ffurflen hon.

## Cyfeirnod IHT

Os oes unrhyw dreth i'w thalu, bydd yn rhaid i chi wneud cais am gyfeirnod IHT a slip talu, cyn i chi ddychwelyd y ffurflen dreth atom. Gallwch wneud cais ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/** neu llenwch ffurflen IHT422 a'i hanfon atom. Dylech wneud cais am gyfeirnod o leiaf dwy wythnos cyn eich bod yn bwriadu dychwelyd y ffurflen hon atom.

## Llenwi'r ffurflen hon

- Defnyddiwch yr IHT400 Nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon.
- Llenwch y ffurflen mewn inc du neu las.
- Gwnewch ymholiadau llawn fel y gallwch ddangos bod y ffigurau a rowch a'r datganiadau a wnewch yn gywir.
- Os llofnodwyd offeryn amrywio cyn gwneud cais am grant, yna llenwch y ffurflen i ddangos effaith yr Ewyllys/diffyg ewyllys a'r offeryn ar y cyd. *Gweler IHT400 Nodiadau.*

Atebwch bob cwestiwn a llenwch y blychau i'n cynorthwyo i brosesu eich ffurflen.

## Cymorth

Am ragor o wybodaeth neu gymorth neu os ydych am gael copi arall o'r ffurflen hon:
- ewch i **www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/**
- ffoniwch ein Llinell Gymorth ar **0845 30 20 900**
  – os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch **+44 115 974 3009**.

## Manylion yr ymadawedig

**1** Enw'r ymadawedig

Teitl - nodwch MR, MRS, MISS, MS neu deitl arall

Cyfenw

Enw(au) cyntaf

**2** Dyddiad y farwolaeth *DD MM BBBB*

**3** Cyfeirnod Treth Etifeddiant (os yn hysbys)
*Gweler y nodyn ar frig y ffurflen hon*

**4** A oedd yr ymadawedig yn wryw neu fenyw

Gwryw ☐ Benyw ☐

**5** Dyddiad geni'r ymadawedig *DD MM BBBB*

**6** Ble'r oedd domisil yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth?
- Cymru a Lloegr ☐
- Yr Alban ☐
- Gogledd Iwerddon ☐
- gwlad arall ☐ *nodwch y wlad yn y blwch isod.*

*Gweler yr IHT400 Nodiadau am wybodaeth ynglŷn â domisil.*

Os nad oedd domisil yr ymadawedig yn y DU, llenwch **IHT401** **nawr**, ac yna gweddill y ffurflen.

**Trowch drosodd**

## Os oedd domisil yr ymadawedig yn yr Alban ar ddyddiad y farwolaeth

**7** A ollyngwyd y gronfa legitim yn **llawn** *yn dilyn y farwolaeth? Gweler IHT400 Nodiadau*

Do ☐ *Ewch i flwch 8*

Naddo ☐ *Rhowch esboniad llawn yn y blychau 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalennau 15 ac 16*

## Manylion yr ymadawedig

**8** A oedd yr ymadawedig:

- yn briod neu mewn partneriaeth sifil ☐
- yn sengl ☐
- yn ŵr gweddw/gwraig weddw neu'n bartner sifil a oedd wedi goroesi ☐
- wedi ysgaru neu'n cyn bartner sifil ☐

**9** Os oedd yr ymadawedig yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar adeg y farwolaeth, beth oedd dyddiad y briodas neu'r dyddiad y cofrestrwyd y bartneriaeth sifil?
*DD MM BBBB*

**10** Pwy oroesodd yr ymadawedig? *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- priod neu bartner sifil ☐
- brodyr a chwiorydd ☐
- rhieni ☐
- plant ☐ nifer
- wyrion ☐ nifer

**11** Cyfeiriad olaf parhaol yr ymadawedig y gwyddoch amdano

Cod Post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

**12** A oedd yr eiddo ym mlwch 11 ym mherchnogaeth neu'n rhannol ym mherchnogaeth yr ymadawedig neu a oedd gan yr ymadawedig hawl i fyw yn yr eiddo?

Oedd ☐ *Ewch i flwch 13*

Nac oedd ☐ *Rhowch fanylion isod. Er enghraifft 'roedd yr ymadawedig yn byw gyda'i ferch' neu 'roedd y cyfeiriad yn gartref preswyl'*

**13** Galwedigaeth yr ymadawedig, neu gyn alwedigaeth os oedd ef/hi wedi ymddeol, er enghraifft, 'meddyg wedi ymddeol'.

**14** Rhif Yswiriant Gwladol yr ymadawedig (os yn hysbys)

**15** Cyfeirnod Treth Incwm neu Drethdalwr Unigryw'r ymadawedig (os yn hysbys)

**16** A oedd rhywun yn gweithredu o dan bŵer atwrnai a ganiatawyd gan yr ymadawedig yn ystod ei fywyd/bywyd? Gallai hyn fod wedi bod yn bŵer atwrnai cyffredinol, goddefol neu barhaol.

Nac oedd ☐

Oedd ☐ *Amgaewch gopi o'r pŵer atwrnai*

## Manylion cyswllt y person sy'n delio â'r ystâd

Er enghraifft, cyfreithiwr neu ysgutor.

**17** Enw a chyfeiriad y cwmni neu'r person sy'n delio â'r ystâd

Enw

Cod Post

Rhif y tŷ neu'r adeilad

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

**18** Enw'r person i gysylltu ag ef/hi *os yn wahanol i'r un ym mlwch 17*

**19** Rhif ffôn

**20** Rhif DX a'r dref (os caiff ei ddefnyddio)

**21** Cyfeirnod y person i gysylltu ag ef/hi

**22** Rhif ffacs

**23** Os bydd angen i ni ad-dalu unrhyw Dreth Etifeddiant a ordalwyd bydd angen i ni wybod enw'r person/cwmni i roi ar y siec.

A ydych am i unrhyw siec yr anfonwn gael ei thalu i'r cwmni neu'r person a enwyd ym mlwch 17?

Ydw ☐ *Ewch i flwch 24*

Nac ydw ☐ *Nodwch yma yr enw(au) fel yr hoffech iddynt ymddangos ar y siec.*

## Ewyllys yr Ymadawedig

**24** A wnaeth yr ymadawedig adael Ewyllys?

Do ☐ *Ewch i flwch 29*

Naddo ☐ *Ewch i flwch 25. Amgaewch gopi o'r Ewyllys ac unrhyw godisiliau pan fyddwch yn anfon eich cyfrif atom. Os bydd offeryn amrywio yn newid swm y Dreth Etifeddiant sy'n daladwy ar yr ystâd hon, dylech anfon copi o'r offeryn hefyd.*

**25** A ydy cyfeiriad yr ymadawedig sy'n ymddangos ar yr ewyllys yr un peth a chyfeiriad olaf parhaol yr ymadawedig y gwyddoch amdano? (ym mlwch 11)?

Nac ydy ☐ *Ewch i flwch 26*

Ydy ☐ *Ewch i flwch 27*

**26** Beth ddigwyddodd i'r eiddo a nodwyd fel preswylfa'r ymadawedig yn yr Ewyllys?
*Os gwerthwyd yr eiddo gan yr ymadawedig ond defnyddiwyd yr holl dderbyniadau o'r gwerthiant i brynu prif breswylfa arall ar ei gyfer/chyfer, a digwyddodd hyn mwy nag unwaith, does dim angen rhoi manylion o'r holl ddigwyddiadau. Nodwch yn syml bod yr 'eiddo cyfredol wedi cymryd lle'r breswylfa yn yr ewyllys'. Ym mhob achos arall nodwch yn union yr hyn a ddigwyddodd a nodwch ddyddiad y digwyddiad(au).*

## Eitemau y cyfeiriwyd atynt yn yr Ewyllys ond heb eu cynnwys yn yr ystâd

Llenwch flychau 27 a 28 dim ond os gwnaeth yr ymadawedig adael Ewyllys. Os nad oes un ewch i flwch 29.

**27** A ydych yn cynnwys yr holl asedion y cyfeiriwyd atynt yn benodol yn yr Ewyllys ar y ffurflen hon? (Er enghraifft, tir, adeiladau, meddiannau personol, gweithiau celf neu gyfranddaliadau.)

Nac ydw ☐ *Ewch i flwch 28*

Ydw ☐ *Ewch i flwch 29*

**28** Eitemau y cyfeirir atynt yn yr Ewyllys ond heb eu cynnwys ar y ffurflen hon (dylid dangos unrhyw roddion ar ffurflen IHT403)

| Eitemau a roddwyd fel rhoddion, a werthwyd neu a waredwyd cyn marwolaeth yr ymadawedig | I bwy y rhoddwyd neu a werthwyd yr eitem, neu beth ddigwyddodd iddi? | Dyddiad y rhodd, y gwerthiant neu'r gwaredu | Gwerth yr eitem ar y dyddiad y rhoddwyd, gwerthwyd neu waredwyd yr eitem £ | Os gwerthwyd yr eitem, beth wnaeth yr ymadawedig â derbyniadau'r gwerthiant? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## Yr hyn a gynhwysir yn eich cyfrif ar gyfer Treth Etifeddiant – Atodlenni

I wneud cyfrif cyflawn ar gyfer yr ystâd efallai y bydd angen i chi gwblhau rhai Atodlenni ar wahân.
Atebwch y cwestiynau canlynol drwy dicio'r blychau priodol.

**29 Trosglwyddo'r haen gyfradd sero sydd heb ei defnyddio**

A ydych am drosglwyddo unrhyw haen gyfradd sero sydd heb ei defnyddio o briod neu bartner sifil yr ymadawedig a fu farw o'i flaen/blaen?

Nac Ydw ☐ Ydw ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT402**

**30 Rhoddion a throsglwyddiadau eraill sydd o werth**

A wnaeth yr ymadawedig roi rhoddion oes neu drosglwyddiadau eraill o werth ar neu ar ôl 18 Mawrth 1986? *Gweler IHT400 Nodiadau*

Naddo ☐ Do ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT403**

**31 Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion ar y cyd (heblaw am asedion busnes neu bartneriaeth) gydag unrhyw berson(au) arall?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT404**

**32 Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw dŷ, tir neu adeiladau neu a oedd ganddo/ganddi hawliau ar dir yn y DU yn ei enw/henw ei hun?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT405**

**33 Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu**

A oedd gan yr ymadawedig gyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu yn ei enw ef/henw hi yn unig, gan gynnwys Cynilion Cenedlaethol a Bondiau Premiwm?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT406**

**34 Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw nwyddau'r tŷ neu feddiannau personol?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT407**

Os **nad** oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw nwyddau'r tŷ neu feddiannau personol neu os nad oes iddynt unrhyw werth, dylech esbonio'r amgylchiadau yn y blychau 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalennau 15 ac 16.

**35 Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol a roddwyd i elusen**

A ydy'r bobl sy'n etifeddu nwyddau'r tŷ neu feddiannau personol yr ymadawedig am gyfrannu rhai ohonynt neu'r cyfan at elusen gymwys yn y DU ac am ddidynnu rhyddhad elusen o werth yr ystâd?
*Er enghraifft, efallai y byddan nhw am roi dodrefn yr ymadawedig i siop elusen.*

Nac Ydyn ☐ Ydyn ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT408**

## Yr hyn a gynhwysir yn eich cyfrif ar gyfer Treth Etifeddiant – Atodlenni parhad

**36 Pensiynau**

A oedd yr ymadawedig wedi gwneud darpariaeth ar gyfer ymddeol heblaw am Bensiwn y Wladwriaeth? *Er enghraifft, pensiwn gan gyflogwr, polisi pensiwn personol (neu bensiwn a sicrhawyd trwy ddull amgen)*

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT409**

**37 Yswiriant bywyd a blwydd-daliadau**

A wnaeth yr ymadawedig dalu premiymau ar unrhyw bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau neu unrhyw gynnyrch arall sy'n daladwy naill ai i'r ystâd, i berson arall neu sy'n parhau ar ôl y farwolaeth?

Naddo ☐ Do ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT410**

**38 Stociau a chyfranddaliadau a restrwyd**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw stociau a chyfranddaliadau a restrwyd a rhai mewn ISAs (dylech eithrio daliadau ar gyfer rheoli)?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT411**

**39 Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd a daliadau ar gyfer rheoli**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd (gan gynnwys AIM a OFEX), neu unrhyw ddaliadau ar gyfer rheoli mewn cyfraniadau a restrwyd?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT412**

**40 Rhyddhad busnes, buddiannau busnes a phartneriaeth ac asedion**

A ydych am ddidynnu rhyddhad busnes o unrhyw fuddiannau ac asedion busnes yr oedd yr ymadawedig neu bartneriaeth yr oedd ef/hi'n bartner ynddi, yn berchen arnynt?

Nac Ydw ☐ Ydw ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT413**

**41 Ffermydd, ffermdai a thir fferm**

A ydych am ddidynnu rhyddhad amaethyddol o unrhyw ffermydd, ffermdai neu dir fferm yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt?

Nac Ydw ☐ Ydw ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT414**

**42 Buddiant mewn ystâd arall**

A oedd gan yr ymadawedig hawl i dderbyn unrhyw gymynrodd neu asedion o ystâd rhywun a fu farw o'i flaen ef/blaen hi lle nad oedd ef/hi wedi eu derbyn cyn y bu farw?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT415**

**43 Dyledion sy'n ddyledus i'r ystâd**

A oedd unrhyw arian yn ddyledus i'r ymadawedig ar ffurf benthyciadau personol neu forgais ar adeg y farwolaeth?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT416**

**44 Asedion Tramor**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar asedion y tu allan i'r DU naill ai yn ei enw/henw ei hun neu ar y cyd gydag eraill?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT417**

**45 Asedion a gadwyd mewn ymddiriedolaeth**

A oedd gan yr ymadawedig unrhyw hawl i elwa o asedion a gadwyd mewn ymddiriedolaeth (gan gynnwys yr hawl i dderbyn asedion a gadwyd mewn ymddiriedolaeth ar ryw ddyddiad yn y dyfodol)?

Nac Oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT418**

**46 Dyledion sy'n ddyledus i'r ymadawedig**

A ydych am gynnwys didyniad o'r ystâd ar gyfer y mathau canlynol o ddyledion a rhwymedigaethau:

- arian a wariwyd ar ran yr ymadawedig ac na chafodd ei ad-dalu
- benthyciadau
- rhwymedigaethau mewn perthynas â pholisi yswiriant bywyd pan ni chaiff y swm a yswiriwyd ei adlewyrchu'n llawn yn yr ystâd
- dyledion a warantwyd gan yr ymadawedig ar ran person arall?

Nac Ydw ☐ Ydw ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT419**

**47 Asedion Treftadaeth Genedlaethol**

A ydy unrhyw ased eisoes wedi ei eithrio neu a ydych yn hawlio eithriad nawr ar sail diddordeb cenedlaethol, gwyddonol, hanesyddol, celfyddydol, golygfaol neu bensaernïol? Neu a yw unrhyw ased o'r fath yn elwa o'r Gronfa Cynhaliaeth Gymeradwy ar gyfer cynhaliaeth a chadwraeth asedion treftadaeth genedlaethol?

Nac Ydy ☐ Ydy ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT420**

Os atebwch unrhyw gwestiwn o 29 i 47 yn gadarnhaol dylech lenwi'r Atodlen ar gyfer yr ased hwnnw. Dangosir rif yr Atodlen ar ddiwedd pob cwestiwn.

**48** A oes gennych yr holl Atodlenni sydd eu hangen arnoch?

Nac oes ☐

- llwythwch yr Atodlenni i lawr o **www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/** neu
- ffoniwch ni ar **0845 30 20 900** (**+44 115 974 3009** o'r tu allan i'r DU), neu
- gofynnwch amdanynt drwy e-bost **hmrc.ihtorderline@btconnect.com**

Pan fyddwch wedi derbyn yr holl Atodlenni sydd eu hangen arnoch, llenwch nhw cyn mynd ymlaen i flwch 49.

Oes ☐ *Llenwch yr Atodlenni* ***nawr*** *cyn mynd ymlaen i flwch 49*

## Ystâd yn y DU

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym am yr asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn y DU. Dylech gynnwys yr holl asedion roedd yr ymadawedig yn eu perchen yn llwyr a **chyfran yr ymadawedig** o asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt **ar y cyd**. Bydd angen i chi gopïo ffigurau o'r Atodlenni a lenwyd gennych. Dylid dangos unrhyw asedion roedd gan yr ymadawedig y tu allan i'r DU ar ffurflen IHT417 ac **nid** ym mlychau 49 i 96.

### Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd

Nodwch '0' os nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion a ddisgrifir.

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 49 | Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd (ffurflen IHT404, blwch 5) | | £ |
| 50 | Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd (ffurflen IHT404, blwch 10) | £ | |

### Asedion roedd yr ymadawedig yn eu perchen yn llwyr

Nodwch werth yr asedion roedd yr ymadawedig yn eu perchen yn llwyr yn y blychau gyferbyn â phob cwestiwn.
Nodwch '0' os nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion a ddisgrifiwyd.

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 51 | Preswylfa'r ymadawedig (ac eithrio ffermdai a thai mewn perchnogaeth ar y cyd) (ffurflen IHT405, blwch 7). Dylech gynnwys gwerth tai mewn perchnogaeth ar y cyd ym mlwch 49 a ffermdai ym mlwch 68 yn lle eu cynnwys yma | | £ |
| 52 | Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu yn enw'r ymadawedig yn unig (ffurflen IHT406, blwch 1) | £ | |
| 53 | Arian (mewn darnau arian neu bapur) a sieciau teithio heb eu cyflwyno | £ | |
| 54 | Bondiau Premiwm a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (ffurflen IHT406, blwch 5) | £ | |
| 55 | Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol (ffurflen IHT407, blwch 6) | £ | |
| 56 | Pensiynau (ffurflen IHT409, blwch 7 a 15). Dylech gynnwys gwerth unrhyw ôl-ddyledion pensiwn ar adeg y farwolaeth | £ | |
| 57 | Yswiriant bywyd a pholisïau diogelu morgeisi (ffurflen IHT410, blwch 6) | £ | |
| 58 | Ychwanegwch yr holl ffigurau yng **Ngholofn A** at ei gilydd (blychau 50 i 57) | £ | |
| 59 | Ychwanegwch yr holl ffigurau yng **Ngholofn B** at ei gilydd (blychau 49 + 51) | | £ |

## Ystâd yn y DU parhad

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 60 | Copïwch y ffigur o flwch 58 | £ | |
| 61 | Copïwch y ffigur o flwch 59 | | £ |
| 62 | Gwarantau Llywodraeth y DU a bwrdeisiol (ffurflen IHT411, blwch 1), ond cynhwyswch ddifidendau a llog ym mlwch 64 | £ | |
| 63 | Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau a restrwyd nad oedd yn golygu bod gan yr ymadawedig reolaeth dros y cwmni (ffurflen IHT411, blwch 2) | £ | |
| 64 | Difidendau neu log ar stociau, cyfranddaliadau a gwarantau | £ | |
| 65 | Cyfranddaliadau a fasnachir heb eu rhestru a chyfranddaliadau nas rhestrwyd ac eithrio daliadau ar gyfer rheoli (ffurflen IHT412 blwch 1 + blwch 2) | £ | |
| 66 | Cyfranddaliadau a fasnachir nas rhestrwyd a chyfranddaliadau nas rhestrwyd ac eithrio daliadau ar gyfer rheoli (gweler IHT412 Nodiadau) | £ | |
| 67 | Daliadau ar gyfer rheoli cyfranddaliadau nas rhestrwyd, a fasnachwyd heb eu rhestru a chyfranddaliadau a restrwyd (ffurflen IHT412 blwch 3 + blwch 4 + blwch 5) | | £ |
| 68 | Ffermydd, ffermdai a thir fferm (rhowch fanylion ar IHT414 ac IHT405) | | £ |
| 69 | Busnesau gan gynnwys busnesau ffermio, asedion busnes a choed | | £ |
| 70 | Tir, adeiladau a hawliau ar dir arall (rhowch fanylion ar ffurflen IHT405) | | £ |
| 71 | Buddiant mewn ystâd arall (ffurflen IHT415, blwch 7) | | £ |
| 72 | Buddiant mewn ystâd arall (ffurflen IHT415, blwch 9) | £ | |
| 73 | Dyledion sy'n ddyledus i'r ystâd (ffurflen IHT416, cyfanswm blwch 3) | £ | |
| 74 | Ad-daliad treth incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf | £ | |
| 75 | Incwm o ymddiriedolaeth sy'n daladwy i'r ymadawedig - *gweler IHT400 Nodiadau* | £ | |
| 76 | Asedion eraill ac incwm sy'n ddyledus i'r ymadawedig (nodwch fanylion yn y blychau ar gyfer 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalennau 15 ac 16 y ffurflen hon os na nodwyd mewn man arall) | £ | |
| 77 | Ychwanegwch yr holl ffigurau yng **Ngholofn A** at ei gilydd (blychau 60 i 76) | £ | |
| 78 | Ychwanegwch yr holl ffigurau yng **Ngholofn B** at ei gilydd (blychau 61 i 71) | | £ |
| 79 | Cyfanswm gros yr ystâd yn y DU (blwch 77 + blwch 78) | £ | |

## Didyniadau o'r ystâd yn y DU a dalwyd hyd ddyddiad y farwolaeth

80 Morgeisi, benthyciadau wedi eu gwarantu a dyledion eraill sy'n daladwy allan o eiddo neu asedion yr oedd yr ymadawedig yn eu perchen yn llwyr ac a ddangosir yng **ngholofn B** ar dudalennau 6 a 7. Er enghraifft, morgais wedi ei warantu ar dŷ'r ymadawedig neu fenthyciad wedi ei warantu ar fusnes. Nodwch enw'r credydwr a nodwch pa eiddo neu ased y mae'r didyniad yn cyfeirio ato a disgrifiwch y rhwymedigaeth.

| Enw'r credydwr | Eiddo neu ased a disgrifiad o'r rhwymedigaeth | Swm £ |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfanswm y morgeisi a'r benthyciadau wedi eu gwarantu | £ |

81 Treuliau'r angladd

| | |
|---|---|
| Costau'r angladd | £ |
| Y garreg fedd | £ |
| Costau eraill (nodwch) | |
| Cyfanswm cost yr angladd | £ |

82 Rhwymedigaethau eraill

Nodwch unrhyw rwymedigaethau eraill nas dangoswyd ym mlychau 80 neu 81.
(Er enghraifft, biliau nwy a thrydan, cardiau credyd neu ffioedd cartref nyrsio sy'n dal heb eu talu.)

| Enw'r credydwr a disgrifiad o'r rhwymedigaeth | Swm £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau eraill | £ |

## Didyniadau o'r ystâd yn y DU parhad

### Crynodeb o'r didyniadau

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 83 | Y ffigur ym mlwch 80 | | £ |
| 84 | Blwch 81 + blwch 82 | £ | |
| 85 | Blwch 77 *llai* blwch 84. Os ydy'r canlyniad yn ffigur negyddol nodwch '0' yn y blwch a nodwch y diffyg ym mlwch 88 | £ | |
| 86 | Blwch 78 *llai* blwch 83. Os ydy'r canlyniad yn ffigur negyddol nodwch '0' yn y blwch a nodwch y diffyg ym mlwch 87 | | £ |
| 87 | Nodwch y ffigur ar gyfer y diffyg o flwch 86 (os oes un) | £ | |
| 88 | Nodwch y ffigur ar gyfer y diffyg o flwch 85 (os oes un) | | £ |
| 89 | Blwch 85 *llai* blwch 87 | £ | |
| 90 | Blwch 86 *llai* blwch 88 | | £ |
| 91 | Cyfanswm yr ystâd yn y DU (blwch 89 + blwch 90) | £ | |

## Eithriadau a rhyddhad

92 Eithriadau a rhyddhad a ddidynnwyd o'r asedion a oedd yn enw'r ymadawedig yn unig a ddangosir yng **ngholofn A** ar dudalennau 6 a 7 - *gweler IHT400 Nodiadau*. Os ydych yn didynnu rhyddhad priod neu bartner sifil, yna nodwch enw llawn y priod neu'r partner sifil, dyddiad geni, y wlad lle y ganed nhw a'u domisil. Os ydych yn didynnu rhyddhad elusen, yna nodwch enw llawn yr elusen, y wlad lle y'i sefydlwyd a chyfeirnod CThEM ar gyfer elusennau, os yw ar gael.

**Peidiwch â chynnwys eithriadau neu ryddhad ar asedion mewn perchnogaeth ar y cyd, dylid didynnu'r rhain ar ffurflen IHT404, ym mlwch 9.**

| Disgrifiwch yr eithriadau a'r rhyddhad rydych yn eu didynnu. Er enghraifft 'rhodd o arian parod i elusen yn yr Ewyllys' a dangoswch sut gafodd y swm ei gyfrifo - defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalennau 15 ac 16 y ffurflen hon os bydd angen mwy o le arnoch. | Swm a ddidynnwyd £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm yr eithriadau a'r rhyddhad o'r asedion yng **ngholofn A** | £ |

## Eithriadau a rhyddhad parhad

**93** Eithriadau a rhyddhad a ddidynnwyd o'r asedion a oedd yn enw'r ymadawedig yn unig a ddangosir yng **ngholofn B** ar dudalennau 6 a 7 - *gweler IHT400 Nodiadau*. Os ydych yn didynnu rhyddhad priod neu bartner sifil, yna nodwch enw llawn y priod neu'r partner sifil, dyddiad geni, y wlad lle y ganed nhw a'u domisil a/neu, os ydych yn didynnu rhyddhad elusennau nodwch enw llawn yr elusen, y wlad y'i sefydlwyd ynddi, a chyfeirnod CThEM ar gyfer elusennau, os yw ar gael (oni bai eich bod wedi eu nodi eisoes ym mlwch 92). **Peidiwch â chynnwys eithriadau neu ryddhad ar asedion mewn perchnogaeth ar y cyd, dylid didynnu'r rhain ar ffurflen IHT404, ym mlwch 4.**

| Disgrifiwch yr eithriadau a'r rhyddhad rydych yn eu didynnu. Er enghraifft 'rhyddhad amaethyddol ar gyfer fferm' a dangoswch sut gafodd y swm ei gyfrifo - defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalennau 15 ac 16 y ffurflen hon os bydd angen mwy o le arnoch. | Swm a ddidynnwyd £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm yr eithriadau a rhyddhad o'r asedion yng **ngholofn B** | £ |

**94** Blwch 89 *llai* blwch 92 £

**95** Blwch 90 *llai* blwch 93 £

**96** Cyfanswm net yr ystâd yn y DU, ar ôl eithriadau a rhyddhad (blwch 94 + blwch 95) £

## Asedion eraill a ystyriwyd wrth gyfrifo'r dreth

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 97 | Tai, tir, busnesau a daliadau rheoli tramor (ffurflen IHT417, blwch 5) | | £ |
| 98 | Asedion tramor eraill (ffurflen IHT417, blwch 10) | £ | |
| 99 | Asedion a gedwir mewn ymddiriedolaeth yr hoffai'r ymddiriedolwyr dalu'r dreth sy'n ddyledus nawr (ffurflen IHT418, blwch 12) | | £ |
| 100 | Asedion a gedwir mewn ymddiriedolaeth yr hoffai'r ymddiriedolwyr dalu'r dreth sy'n ddyledus nawr (ffurflen IHT418, blwch 17) | £ | |
| 101 | Asedion enwebedig. Dylech gynnwys manylion yr asedion enwebedig yn y blychau 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalennau 15 ac 16 - *gweler IHT400 Nodiadau* | £ | |
| 102 | Blwch 98 + blwch 100 + blwch 101 | £ | |
| 103 | Blwch 97 + blwch 99 | | £ |
| 104 | Rhoddion amodol ac asedion roedd yr ymadawedig yn eu perchen yn flaenorol (IHT403, blwch 17) | £ | |
| 105 | Asedion a gedwir mewn ymddiriedolaeth lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn talu'r dreth nawr (IHT418, blwch 18) | £ | |
| 106 | Cronfeydd pensiwn a sicrhawyd trwy ddull amgen (ffurflen IHT409, blychau 32 a 42 - dim ond os oedd y farwolaeth rhwng 06/04/06 a 05/04/07 yn gynwysedig) | £ | |
| 107 | Cyfanswm yr asedion eraill a ystyriwyd wrth gyfrifo'r dreth (blwch 102 + blwch 103 + blwch 104 + blwch 105 + blwch 106) | £ | |
| 108 | Cyfanswm yr ystâd drethadwy (blwch 96 + blwch 107) | £ | |

## Cyfrifo'r Dreth Etifeddiant

**Os nad oes Treth Etifeddiant i'w thalu, does dim angen i chi gwblhau'r dudalen hon a dylech fynd i flwch 119 ar dudalen 12.**

**Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon eich hun heb gymorth cyfreithiwr neu gynghorydd arall, does dim angen i chi gyfrifo'r dreth eich hun; gallwn ni wneud hynny drosoch – ond darllenwch y nodyn canlynol ynglŷn â thalu Treth Etifeddiant trwy randaliadau yn gyntaf.**

**Talu Treth Etifeddiant trwy randaliadau**
Yn lle talu'r Dreth Etifeddiant i gyd ar unwaith, gallwch dalu rhan ohono mewn 10 rhandaliad blynyddol (hynny yw, un rhandaliad pob blwyddyn am 10 mlynedd). Gallwch dalu trwy randaliadau ar unrhyw ased nas gwerthwyd ac a ddangosir yng **ngholofn B** ar dudalennau 6 a 7.

Bydd llog yn daladwy ar y rhandaliadau.
Cyfanswm yr asedion y gallwch dalu'r dreth mewn rhandaliadau yw blwch 95 + blwch 97 + blwch 99 (os oes unrhyw beth).

**109** A ydych yn llenwi'r ffurflen heb help cyfreithiwr neu gynghorydd arall ac rydych am i ni gyfrifo'r dreth drosoch?

Nac ydw ☐ *Ewch i 'Cyfrifiad Treth Etifeddiant syml'*

Ydw ☐ *Ewch i flwch 110*

**110** A ydych am dalu'r dreth ar y swm a ddangosir ym mlwch 95 + blwch 97 + blwch 99 trwy randaliadau?

Nac ydw ☐ *Ewch i flwch 118*

Ydw ☐ *Os gwerthwyd rhai o'r asedion yng* ***ngholofn B****, ysgrifennwch gyfanswm gwerth yr asedion hynny yma*

£

*Nawr ewch i flwch 118*

## Cyfrifiad Treth Etifeddiant syml

Gallwch ddefnyddio'r cyfrifiad syml ym mlychau 111 i 117 i gyfrifo'r Dreth Etifeddiant ar yr ystâd cyhyd a bod y canlynol yn gymwys:

- rydych yn talu'r dreth ar neu cyn diwrnod olaf y chweched mis ar ôl y farwolaeth ac felly does dim llog yn daladwy
- rydych am dalu'r holl dreth nawr ac nid talu trwy randaliadau ar eiddo yng ngholofn B (gweler y nodyn uchod ynglŷn â thalu Treth Etifeddiant trwy randaliadau)
- mae cyfanswm unrhyw roddion oes islaw terfyn yr haen gyfradd sero
- nid ydych yn didynnu rhyddhad trethiant dwbl o unrhyw asedion tramor *(gweler y nodyn yn IHT400 Cyfrifiad)*
- nid ydych yn didynnu rhyddhad am godiannau olynol ar asedion a etifeddwyd gan yr ymadawedig yn y bum mlynedd ddiwethaf o ystâd arall y talwyd Treth Etifeddiant arni *(gweler y nodyn ar IHT400 Cyfrifiad)*

Os nad yw'r cyfrifiad syml yn gymwys i chi, bydd angen i chi ddefnyddio ffurflen IHT400 cyfrifiad i gyfrifo'r Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus, yna dylech barhau i lenwi'r ffurflen hon ym mlwch 118.

| | | |
|---|---|---|
| **111** | Cyfanswm y gwerth trethadwy o'r rhoddion a roddwyd gan yr ymadawedig o fewn saith mlynedd cyn y farwolaeth (ffurflen IHT403 blwch 7) | £ |
| **112** | Cyfanswm y trosglwyddiad trethadwy (blwch 108 + blwch 111) | £ |
| **113** | Haen gyfradd sero Treth Etifeddiant ar ddyddiad y farwolaeth *Gweler IHT400 Cyfraddau a Thablau* | £ |
| **114** | Yr haen gyfradd sero y gellir ei throsglwyddo (ffurflen IHT402, blwch 20) | £ |
| **115** | Cyfanswm yr haen gyfradd sero (blwch 113 + blwch 114) | £ |
| **116** | Y gwerth y codir treth arno (blwch 112 *llai* blwch 115) | £ |
| **117** | Treth Etifeddiant (blwch 116 x 40%) | £ . |

## Cynllun Talu'n Uniongyrchol

O dan y cynllun hwn bydd banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n rhan o'r cynllun yn rhyddhau arian o gyfrifon yr ymadawedig yn uniongyrchol i Gyllid a Thollau EM i dalu Treth Etifeddiant. Gweler y nodyn ar dudalen 14 ar gyfer Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol.

118 A ydych am ddefnyddio'r Cynllun Talu'n Uniongyrchol?

Nac ydw ☐

Ydw ☐ *Llenwch ffurflen IHT423 (bydd angen ffurflen ar wahân ar gyfer pob cyfrif banc a chymdeithas adeiladu a ddefnyddir)*

## Datganiad

119 Rydw i/Rydym ni am wneud cais am y math canlynol o grant (gweler y nodyn 'Grant Cynrychiolaeth' yn IHT400 Nodiadau i benderfynu'r math o grant)

- Profiant ☐
- Cadarnhad (Confirmation) ☐
- Llythyron Gweinyddu ☐
- Llythyron Gweinyddu gydag Ewyllys wedi ei hatodi ☐
- Arall (nodwch)

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm/ein gwybodaeth a'n cred, mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf/gennym a'r datganiadau a wnaed gennyf/gennym yn y cyfrif hwn a'r Atodlenni sydd ynghlwm wrtho (a elwir ar y cyd 'y cyfrif hwn') yn gywir ac yn gyflawn. Ticiwch yr Atodlenni a lenwyd gennych.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| IHT401 | ☐ | IHT408 | ☐ | IHT415 | ☐ |
| IHT402 | ☐ | IHT409 | ☐ | IHT416 | ☐ |
| IHT403 | ☐ | IHT410 | ☐ | IHT417 | ☐ |
| IHT404 | ☐ | IHT411 | ☐ | IHT418 | ☐ |
| IHT405 | ☐ | IHT412 | ☐ | IHT419 | ☐ |
| IHT406 | ☐ | IHT413 | ☐ | IHT420 | ☐ |
| IHT407 | ☐ | IHT414 | ☐ | | |

Rydw i/Rydym ni wedi cynnal yr ymholiadau mwyaf llawn sydd yn rhesymol ymarferol yn yr amgylchiadau i ddod o hyd i werth marchnad agored yr holl eitemau a ddangosir yn y cyfrif hwn. Mae gwerth yr eitemau yn y blychau a restrir isod yn amcangyfrifon dros dro yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael i mi/ni ar yr adeg hon.

Byddaf i/Byddwn ni'n dweud wrth Dreth Etifeddiant Cyllid a Thollau EM yr union werth(oedd) cyn gynted ag y byddaf i/byddwn ni'n gwybod a byddaf/byddwn yn talu unrhyw dreth ychwanegol a llog a allai fod yn ddyledus.

Rhestrwch yma'r blychau yn y cyfrif sy'n rhai dros dro.

Lle mae Atodlen IHT402 wedi ei llenwi ac rydw i/rydym ni'n datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm/ein gwybodaeth a'n cred:

- bod yr ymadawedig a'i briod/phriod neu ei bartner/phartner sifil wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar y dyddiad y bu'r priod neu'r partner sifil farw
- lle nad oes Gweithred Amrywio wedi ei chyflwyno ni fu unrhyw newid yn y bobl a etifeddodd ystâd y priod neu'r partner sifil.

Deallaf/Deallwn y gallwn i/gallem ni fod yn agored i erlyniad petawn i/petaem ni'n fwriadol yn cuddio unrhyw wybodaeth sy'n effeithio'r rhwymedigaeth i Dreth Etifeddiant sy'n codi ar farwolaeth yr ymadawedig, neu petawn i/petaem ni'n fwriadol yn cynnwys gwybodaeth yn y cyfrif hwn rydw i/rydym ni'n gwybod sy'n anwir.

Deallaf/Deallwn y gallwn/gallem orfod talu cosbau ariannol os cyflwynir y cyfrif hwn yn hwyr neu os yw'n cynnwys gwybodaeth anwir, neu petawn i/petaem ni'n methu a chywiro unrhyw beth yn y cyfrif hwn sydd yn anghywir mewn unrhyw fodd sylweddol o fewn amser rhesymol ar ôl iddo ddod i'm/i'n sylw.

Deallaf/Deallwn nad yw rhoi'r grant yn golygu:

- fy mod i/ein bod ni wedi talu'r holl Dreth Etifeddiant a'r llog a allai fod yn ddyledus ar yr ystâd, neu
- bod y datganiadau a wnaed a'r gwerthoedd a gynhwyswyd yn y cyfrif hwn yn cael eu derbyn gan Dreth Etifeddiant Cyllid a Thollau EM.

O ran Treth Etifeddiant Cyllid a Thollau EM deallaf/deallwn:

- y byddant yn edrych yn fanwl ar y cyfrif hwn dim ond ar ôl rhoi'r grant
- y gallai fod angen iddynt ofyn cwestiynau pellach a thrafod gwerth eitemau a ddangosir yn y cyfrif hwn
- y gallant wneud cyfrifiannau pellach ynglŷn â'r dreth a llog sy'n daladwy i helpu'r personau sy'n agored i'r dreth i wneud darpariaeth ar gyfer talu'r rhwymedigaeth treth.

Deallaf/Deallwn y gallwn/gallem orfod talu llog ar unrhyw dreth sydd heb ei thalu yn unol â'r gyfraith:

- pan rydw i/rydym ni wedi dewis talu treth trwy randaliadau
- pan fo treth ychwanegol yn dod yn daladwy am unrhyw reswm.

**Rhaid i bob person sy'n cyflwyno'r cyfrif hwn, p'un ai fel ysgutor, yn ddarpar weinyddwr neu fel arall, lofnodi ar dudalen 13 i ddangos eu bod wedi darllen a chytuno'r datganiadau uchod.**

## Datganiad parhad

Cyfenw

Enw(au) cyntaf

Cod Post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*

Cyfenw

Enw(au) cyntaf

Cod Post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*

Cyfenw

Enw(au) cyntaf

Cod Post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*

Cyfenw

Enw(au) cyntaf

Cod Post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*

## Rhestr wirio

Am ragor o wybodaeth edrychwch ar y dudalen berthnasol yn yr IHT400 Nodiadau.
Defnyddiwch y rhestr wirio i'ch atgoffa o'r:

- hyn ddylech wneud, a
- yr wybodaeth ychwanegol y dylech ei chynnwys pan fyddwch yn anfon y ffurflenni Treth Etifeddiant i Dreth Etifeddiant Cyllid a Thollau EM.

- Os bu farw'r ymadawedig gan adael Ewyllys, darparwch gopi o'r Ewyllys ac unrhyw godisiliau

Nac oes ☐ Oes ☐

- Os cafodd yr ystâd ei hamrywio mewn unrhyw ffordd sy'n golygu bod yr amrywiad naill ai'n cynyddu neu'n gostwng swm y dreth, dylech ddarparu copi o'r offeryn amrywio.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Unrhyw brisiad proffesiynol o stociau a chyfranddaliadau.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Unrhyw brisiad proffesiynol o nwyddau'r tŷ neu nwyddau personol.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Unrhyw brisiad proffesiynol o dai, tir ac adeiladau.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Copi o bolisi yswiriant (a blwydd-dal, os yn briodol) pan oedd yr ymadawedig yn talu'r premiymau er lles rhywun arall ac unrhyw ddogfennau ymddiriedolaeth os yw'r polisi wedi ei ysgrifennu mewn ymddiriedolaeth.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Copi unrhyw weithred(oedd) ymddiriedolaeth, os ydy'r ymddiriedolwyr yn talu treth ar yr un pryd ag rydych chi'n gwneud cais am y grant.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Unrhyw dystiolaeth bod arian yn ddyledus i'r ymadawedig, gan gynnwys cytundebau benthyciadau ac ymddiriedolaethau neu bolisïau sydd ynghlwm â nhw ac unrhyw dystiolaeth bod dyledion wedi ei rhyddhau.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Copi o unrhyw bolisi yswiriant bywyd ar y cyd neu bolisi ar fywyd person arall.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Copi o unrhyw arolwg adeiledd ac/neu ohebiaeth gyda chymhwysydd colled ynglŷn ag eiddo sydd wedi ei niweidio'n adeileddol.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Os ydych yn didynnu rhyddhad amaethyddol, cynllun o'r eiddo a chopi o'r brydles neu gytundeb ar gyfer gosod (pan yn briodol).

Nac oes ☐ Oes ☐

- Os ydych yn didynnu rhyddhad busnes, copi o gytundeb y bartneriaeth (pan yn briodol) a chyfrifon y ddwy flynedd ddiwethaf.

Nac oes ☐ Oes ☐

- Os ydych yn didynnu rhyddhad trethiant dwbl neu ryddhad unochrog, darparwch dystiolaeth o'r dreth dramor ar ffurf asesiad o'r dreth dramor, tystysgrif o'r dreth dramor a dalwyd a'r dderbynneb swyddogol (os yw ar gael).

Nac oes ☐ Oes ☐

- Unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o ddyledion i gyfeillion agos neu deulu.

Nac oes ☐ Oes ☐

- A ydy pob ysgutor wedi llofnodi tudalen 13 o'r ffurflen hon?

Nac ydyn ☐ Ydyn ☐

- Os ydych wedi cyfrifo eich treth eich hun, a ydych wedi amgáu'r cyfrifiad a'ch taliad gyda'r ffurflen hon?

Nac Ydw ☐ Ydw ☐

- Os ydych yn gwneud cais am grant, a ydych wedi amgáu ffurflen IHT421 *Crynodeb Profiant?*

Nac Ydw ☐ Ydw ☐

## Cynllun Talu'n Uniongyrchol (os y'i defnyddiwyd)

- Os ydych yn defnyddio'r Cynllun Talu'n Uniongyrchol, a ydych wedi anfon ffurflen IHT423 i bob corff y bwriedwch ddefnyddio i ddarparu arian? *Gweler IHT423*

Nac Ydw ☐ Ydw ☐

- A ydych am i Dreth Etifeddiant Cyllid a Thollau EM wneud cais am daliad gan Gynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, os felly dylech ddarparu llythyr yn rhoi manylion y buddsoddiadau i'w defnyddio a faint o'r dreth sydd i'w thalu gan Gynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol a llythyron swyddogol gan y swyddfa Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol berthnasol yn datgan gwerth y buddsoddiadau hynny.
- A ydych am i Dreth Etifeddiant Cyllid a Thollau EM wneud cais am daliad o Stociau Llywodraeth Prydain, os felly dylech ddarparu llythyr i roi manylion y buddsoddiadau i'w defnyddio a faint o'r dreth sydd i'w thalu trwy ddefnyddio Stociau'r Llywodraeth.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â thalu drwy Gynilion Cenedlaethol neu stoc Llywodraeth Prydain, ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch y llinell gymorth am gopi o'r IHT11 *Talu Treth Etifeddiant o Gynilion Cenedlaethol neu stoc Llywodraeth Prydain.*

## Cyfeiriad ar gyfer dychwelyd y cyfrif a manylion cyswllt

- Os ydych yn gwneud cais am grant yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, dylech ddychwelyd y ffurflenni i'n swyddfa yn Nottingham (mae'r cyfeiriadau DX ar gyfer cyfreithwyr, ymarferwyr a banciau)

  **HM Revenue & Customs**
  **Inheritance Tax**
  Ferrers House
  PO Box 38
  Castle Meadow Road
  Nottingham
  NG2 1BB
  DX 701201 NOTTINGHAM 4

  Ffôn **0845 30 20 900**

- Os ydych yn gwneud cais am Gadarnhad (Confirmation) yn yr Alban dylech ddychwelyd y ffurflenni i'n swyddfa yng Nghaeredin (mae'r cyfeiriadau DX ar gyfer cyfreithwyr, ymarferwyr a banciau)

  **HM Revenue & Customs**
  **Inheritance Tax**
  Meldrum House
  15 Drumsheugh Gardens
  Edinburgh
  EH3 7UG
  DX ED 542001 EDINBURGH 14

  Ffôn **0845 30 20 900**

- Os ydych am wybod mwy am agwedd arbennig o Dreth Etifeddiant neu os oes gennych gwestiynau penodol ynglŷn â chwblhau'r ffurflenni ewch i **www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/**

  Neu ffoniwch Linell Gymorth Profiant a Threth Etifeddiant ar **0845 30 20 900**. (**+44 115 974 3009** o'r tu allan i'r DU)

- Os bydd angen copi o unrhyw un o'n ffurflenni neu'n taflenni arnoch gallwch ei llwytho i lawr o'n gwefan neu gallwch ffonio Llinell Gymorth Profiant a Threth Etifeddiant i'w harchebu.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Defnyddiwch y lle hwn:

- i esbonio'r amgylchiadau lle nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw nwyddau'r tŷ neu feddiannau personol neu lle nad oes iddynt unrhyw werth (blwch 34)
- i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwn amdani, yn cynnwys manylion o:
  - unrhyw gais i ollwng hawliau cyfreithiol (blwch 7)
  - asedion eraill ac incwm sy'n ddyledus i'r ymadawedig (blwch 76)
  - asedion enwebedig (blwch 101)
  - rhyddhad am godiannau olynol (IHT400 Cyfrifiad, blwch 10).

## Gwybodaeth Ychwanegol parhad

## Gwybodaeth Ychwanegol parhad

Os bydd angen rhagor o le arnoch, dylech barhau ar ddalen ar wahân.